**EITEM AR YR AGENDA: 11**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Mawrth 2016**

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU STATUDOL) (CYMRU) 2011

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

### Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cael cymeradwyaeth yr Aelodau i'r ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

### Cefndir

2 Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym yn Hydref 2010. Roedd y Ddeddf yn disodli dyletswyddau cydraddoldeb ar wahân a oedd yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, rhywedd ac anabledd yn Neddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, a ddiddymwyd gan Ddeddf 2010. Roedd y Ddeddf Cydraddoldeb yn ymestyn sylw'r Ddyletswydd i'r nodweddion gwarchodedig eraill sef oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd.

3 Mae'r Ddeddf yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt dalu sylw dyledus i'r canlynol wrth gyflawni eu swyddogaethau:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf neu odani
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

4 Yn Ebrill 2011, fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru arfer ei phwerau i gyflwyno dyletswyddau penodol a oedd wedi'u cynllunio i gynorthwyo â thryloywder ac i alluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol. Nodir y rhain yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

5 Caiff cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ei rheoleiddio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC). Rôl y Comisiwn dan y gyfraith newydd yw amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb. Caiff y rôl ei chyflawni drwy ddarparu arweiniad, a gwaith rheoleiddio a gorfodi.

**Gwybodaeth**

6 Mae'r Ddyletswydd Benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru lunio cynllun cydraddoldeb strategol sy'n nodi amcanion cydraddoldeb sy'n gyson â'r rheoliadau.

7 Mae'r rheoliadau'n cynnwys gofynion ar gyfer:

- y darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunyddiau cyhoeddedig ar gael yn rhwydd;
- asesu effaith polisïau ac arferion perthnasol;
- hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf ymysg ei weithwyr;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg rhwng cyflogau;
- adolygu'r cynnydd a wnaed ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau ynghylch arferion caffael.

8 Mae'r cynllun yn amlinellu'r amcanion cydraddoldeb allweddol a ganfuwyd gan ein rhanddeiliaid, ac mae wedi ei ddylunio i adeiladau ar y llwyddiannau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol, sef 2012-2016.

9 Hefyd, mae cynnwys yr amcanion gwella wedi eu cysoni â:

- gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus, a'r Rheoliadau Penodol 2011 (Cymru);
- amcanion cyfunol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i leihau risg a gwella.

10 Caiff y cynllun ei hyrwyddo a'u hybu'n fewnol ac yn allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gwaith a wnawn. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun gael ei adolygu bedair blynedd fan bellaf ar ôl ei gyhoeddi, er y gallai'r Awdurdod adolygu, diwygio neu ail-wneud unrhyw amcan unrhyw bryd. Caiff gweithgarwch ei fonitro er mwyn asesu effaith y camau gweithredu a gymerir gan yr Awdurdod ar y cyhoedd a'r gweithwyr. Adroddir ynghylch cynnydd yn flynyddol i'r Awdurdod.

11 Pwysigrwydd y Cynllun yw ei fod yn annog pawb i feddwl am wahanol anghenion cymunedau Gogledd Cymru. Wrth gyflwyno gwasanaethau i boblogaeth amrywiol, mae gan bawb anghenion gwahanol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i sicrhau parch a thegwch i drigolion, aelodau'r staff a'r holl ymwelwyr ag ardal Gogledd Cymru.

**Argymhellion**

12 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi.